**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1012
Ein cyf/Our ref VG/05662/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

3 Medi 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Awst ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â darparu therapi siambr ocsigen i'w ariannu gan y GIG i leddfu symptomau ffibromyalgia.

Byrddau Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion iechyd eu poblogaethau, sy'n cynnwys darparu gwasanaethau i'r rheini sy'n byw gyda ffibromyalgia yng Nghymru.

Yng Nghymru, rydym yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth benderfynu pa driniaethau dylid bod ar gael fel mater o drefn. I wneud hyn, rydym yn dibynnu ar gyngor arbenigol NICE a'n corff arfarnu ein hunain, sef y Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG). Mae'r ddau gorff hyn yn dadansoddi'r manteision clinigol, a'r gost a godir gan y gweithgynhyrchwr, i asesu a yw'r manteision yn ddigon i gyfiawnhau'r pris y mae'n rhaid i'r GIG ei dalu. Wrth wneud hyn, maent yn gwrando ar gyngor clinigwyr arbenigol ac yn ystyried safbwyntiau cleifion. Nid yw canllawiau NICE yn argymell therapi ocsigen fel defnydd effeithiol o adnoddau'r GIG; ac nid ydym ychwaith yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod therapi ocsigen yn effeithiol i bobl sy'n byw gyda ffibromyalgia.

Pan na fydd meddyginiaeth ar gael fel mater o drefn o fewn GIG Cymru, gall clinigwr wneud cais am y feddyginiaeth ar ran ei glaf drwy gyflwyno Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol. Byddai angen i'r clinigwr ddarparu tystiolaeth ddigonol i ddangos y byddai'r driniaeth arfaethedig yn effeithiol o ran cost a'r ochr glinigol. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi llunio'r canllawiau canlynol yn amlinellu pa gyflyrau y dylai Therapi Ocsigen Hyperbarig gael ei ddarparu ar eu cyfer:
http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/cp071.pdf

Fel y gallwch werthfawrogi, mae'r ymateb i'r pandemig yn sefyllfa sy'n symud ac yn datblygu'n gyflym, ac mae mwyafrif yr adnoddau ar draws Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru bellach yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â COVID-19 ac atal ail don o'r feirws yn y dyfodol. Felly, gobeithio y byddwch yn deall nad ydym, ar hyn o bryd, yn gallu ystyried archwilio'r mater o ddefnyddio therapi ocsigen ar gyfer ffibromyalgia ymhellach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan Lywodraeth Cymru grwpiau cynghorol sy'n darparu cyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol a'r rheini sy'n byw gyda chyflyrau blinder hirdymor. Pan fydd gwasanaethau arferol yn gallu ailddechrau, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i barhau i ystyried beth fyddai'r driniaeth a'r gefnogaeth fwyaf addas ar gyfer cleifion ffibromyalgia.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services